

## W203.01 ADFER ARWYNEB GLASWELLT

Mae adfer glaswellt drwy ddulliau megis tros-hau neu bwytho hadau i mewn yn ddeniadol fel dull o wella tir glas sy'n costio llai. Gall y canlyniadau fod yn siomedig, ond mae'r ffeithlen hon yn delio â chwestiynau'n ymwneud ag adfer fel canllaw sut i ddefnyddio'r dulliau hyn orau.

### PAM ADFER?

- Lle mae:
  - Angen i chi barhau i gynhyrchu porfa
  - Glaswellt agored – i atal chwyn rhag dod i mewn ac i gynyddu trwch cadeiriau
  - Difrod i'r glaswellt – e.e. ar laswellt sydd wedi'i sathru
  - Cyflwr y tir sy'n rhwystro rhywun rhag trin y tir drwy aredig neu ddull arall
- Lle'r ydych yn dymuno:
  - Cyflwyno meillion neu gynyddu'r cynnwys meillion
  - Cyflwyno mathau newydd i fanteisio ar gynnyrch ychwanegol neu dwf cynnar yn y tymor

### Manteision dros aredig / trin y tir

Mae'n gyflymach ac yn rhatach  
Nid yw'n golygu peidio â chynhyrchu am gyfnod mor hir  
Gall weithio ar bridd tenau a thir serth  
Ni fydd yn achosi ffordan – dod â cherrig, hadau dail tafol i'r wyneb  
Nid yw pridd mewn perygl o erydu

### Anfanteision dros aredig

Cyfraddau sefydlu llai dibynadwy  
Bydd porfeydd presennol yn cystadlu â hadblanhigion  
Ychydig reolaeth dros chwyn  
Ni fydd yn ateb problem pridd wedi ei gywasgu

### PRYD I ADFER

Cyn ystyried adfer arwyneb glaswellt mae'n bwysig clustnodi'r rhesymau pam mae'r glaswellt wedi dirywio. Os na chaiff problemau sylfaenol eu cywiro, yna bydd tyfiant a pharhad unrhyw borfa newydd yn cael ei gyfyngu.

- Beth yw cyflwr y pridd?  
Edrychwch ar y mynegeion pH, P a K, cywasgiad y pridd a'r traeniad. Nid yw adfer arwyneb yn ddull priodol pan geir problemau pridd yn cywasgu neu broblemau traenio.
- A all pori gwell neu reolaeth well ar y torri wella'r glaswellt?
- A oes angen i chi addasu faint o nitrogen sy'n cael ei daenu i annog meillion i dyfu?
- Ai trwch y chwyn sy'n lleihau'r cynnyrch?  
Rhaid rheoli chwyn cyn ystyried adfer. Dylid oedi'r hadu ar ôl trin tir â chwynladdwr detholus yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

### CYFRADDAU HADAU A MATHAU

Defnyddiwch:

**Gymysgeddau rhygwellt/meillion o 8-10kg/erw**

**Meillion gwyn o 1.5-2kg/erw**

Mae gan rygwellt hybrid a rhygwellt tetraploid parhaol hadau mwy ac maent yn tueddu egino'n gyflymach a bod yn fwy grymus na'r mathau diploid.

Mae defnyddio oged a chribin i wella cyflwr glaswellt heb gyflwyno had yn ddull gwych o reoli'ch glaswellt. Bydd tynnu porfeydd chwyn a mwsogl o waelod y glaswellt yn annog rhygwellt i braffu. Ceisiwch osgoi defnyddio oged yn ormodol lle mae angen annog meillion i dyfu, gan y gall hyn niweidio stolonau meillion gwan.

## CANLLAWIAU AR GYFER TROS-HAU

1. Porwch yr ardal yn drwm – nes bydd uchder y glaswellt i lawr i 3 - 4 cm.
2. Defnyddiwch oged neu gribin ar y tir mewn dau gyfeiriad nes bydd y glaswellt yn agored a nes tynnu'r rhan fwyaf o'r porfeydd chwyn a'r siaffrwd ar waelod y glaswellt (rhwyng 2 a 6 tro fel arfer).
3. Mae ogedi porfa modern yn rhoi canlyniadau gwych, er y gellir creu amodau addas trwy ddefnyddio ogedi traddodiadol â phigau. Y nod yw cael o leiaf 25% o arwyneb pridd coch er mwyn sicrhau cyswllt pridd a hâd da.
4. Taenwch hadau'n syth ar ôl ogedu, neu ar y tro olaf os ydych yn defnyddio peiriant â blwch hadau.
5. Os ydych yn defnyddio troellwr gwrtaith, byddai'n ddoeth i chi daenu gwrtaith P a K neu dywod gyda'r hadau.
6. Os ydych yn hau meillion, mae'n hanfodol ichi gymysgu'r hadau yn aml yn yr hopran, gan y byddant yn gwaelodi'n gyflym iawn.
7. Taenwch wrtaith P a K os oes angen, ond **DIM** nitrogen.
8. Casglwch y stoc ynghyd i sathru'r hadau i mewn, neu rowliwch â rholeri gwastad.

## RHEOLI AR ÔL HAU

1. Parhewch i bori'n eithaf caled nes bydd yr hadblanhigion yn dod i'r golwg (7-10 diwrnod fel arfer)
2. Symudwch y stoc a rhoi seibiant o 4-5 wythnos i'r tir.
3. Porwch yn galed (casglwch y stoc ynghyd) nes bydd uchder y glaswellt i lawr i 3-4cm, yna'i orffwys eto.

Ailadroddwch y broses hon am weddill y tymor nes bydd y borfa'n gorffen tyfu. Mae'n fater o sicrhau cydbwysedd rhwyng peidio â gor-bori a symud hadblanhigion, a pheidio â gadael i'r glaswellt sydd yn tyfu yno'n barod fygur hadblanhigion newydd.

## AGEN-HADU

Mae agen-hadu neu bwytho i mewn yn ddull poblogaidd arall o adfer glaswellt. Mae amrywiaeth o ddriliau uniongyrchol ar gael, bob un ohonynt â dulliau ychydig yn wahanol ar gyfer rhoi'r hadau yn y pridd. Mae rhai ohonynt yn torri agennau syml i ollwng yr hadau iddynt, ac mae mathau eraill yn creu agennau mwy llydan gan dorri darn o'r dywarchen i ffwrdd, a rhai ohonynt (Driliau Hau Stribed) yn palu stribed gul o dir o flaen cwlwtwr y dril.

Mae paratoi'r tir, gofynion gwrteithio a rheoli tir ar ôl hau yr un fath ag ar gyfer tros-hau.

Mantais driliau uniongyrchol yw eu bod yn sicrhau cyswllt pridd a hâd da, gan roi cyfraddau egino uwch na thechnegau tros-hau. Mae'r Driliau Hau Stribed yn arbennig o addas ar gyfer eu defnyddio ar laswellt trwchus iawn sy'n anodd ei agor ag ogedi.

Gall problemau godi pan fydd driliau'n gosod hadau'n rhy ddwfn a phan fydd defaid yn dethol rhesi o hadblanhigion newydd i'w pori.

Mae costau defnyddio dril agen-hadu fel arfer yn uwch nag ar gyfer tros-hau. Bydd angen peledi malwod fel arfer gyda'r technegau hyn, a gellir taenu'r rhain gyda'r hadau.

## AMSERU'R GWAITH

**Gwanwyn** – mae digon o wlybaniaeth yn y pridd ac mae tymor hir o dyfiant i ddod. Ni fydd hwn yn amser delfrydol os oes pwysau mawr ar bori'n gynnar yn y tymor. Gall tymheredd isel y pridd olygu bod glaswellt yn araf yn sefydlu, a gall fod yn anodd rheoli porfa sy'n cystadlu wedyn yn ystod cyfnodau brig tyfiant.

**Ar ôl silwair** – mae'r glaswellt yn agored ac mae angen llai o ogedu i greu'r amodau iawn. Mae perygl cyfnod sych hir yn llai ar ôl toriadau hwyr (Gorffennaf/Awst). Dyma'r amseru gorau yn aml. Mae angen hau hadau meillion erbyn dechrau Awst.

Defnyddiwch dechnegau adfer mewn modd strategol i adfer glaswellt cyn i chi gollu cynhyrchiant:

- 1) Os yw'r tywydd yn eich gorfodi i wneud toriad silwair hir a hwyr – heuwch ychydig hadau gan y bydd nifer y cadeiriau'n isel a bydd tir adlodd yn ymadfer yn araf.
- 2) Os yw gwanwyn gwlyb wedi golygu bod y tir wedi'i ddfrodi gan stoc – adferwch hwnnw cyn gynted â phosibl, yn hytrach na gadael i chwyn a phorfeydd chwyn ddod i mewn a llenwi'r bylchau.